NICE National Institute for Health and Care Excellence

# Canaloplasti ar gyfer glawcoma ongl agored sylfaenol o'r tu allan

13 Medi 2017

Mae'r driniaeth hon yn gweithio'n dda ar gyfer glawcoma ongl agored sylfaenol ac nid oes unrhyw bryderon difrifol ynglŷn â pha mor ddiogel ydyw.

Mae glawcoma ongl agored sylfaenol yn gyflwr cynyddol sy'n arwain at bwysedd cynyddol hirdymor yn y llygad. Mae hyn yn niweidio'r nerf sy'n cysylltu'r llygad â'r ymennydd (nerf optig), a gall arwain yn raddol at golli golwg yn barhaol. Mae'r driniaeth hon yn cynnwys gosod tiwb bach ym mhrif bibell draenio'r llygad, er mwyn ei hehangu. Yna, caiff y tiwb ei dynnu a chaiff pwyth ei roi yn y bibell er mwyn ei chadw ar agor, fel y gall yr hylif ei ddraenio. Y nod yw lleihau'r pwysedd yn y llygad.

Gall NHS Choices fod yn fan da i gael gwybod mwy. Mae gan ganllawiau triniaethau ymyriadol NICE fwy o wybodaeth am driniaethau a sut rydym yn eu hasesu.

## A yw'r driniaeth hon yn addas i mi?

Os cawsoch gynnig y driniaeth hon, dylai eich gweithwyr gofal iechyd proffesiynol drafod yr hyn y mae'n ei olygu, a dweud wrthych am y risgiau a'r manteision. Dylent drafod eich opsiynau gyda chi, a gwrando'n ofalus ar eich barn a'ch pryderon. Gall eich teulu fod yn rhan o'r broses hefyd,  os ydych yn dymuno. Dylai hyn oll ddigwydd cyn y byddwch yn cytuno (rhoi cydsyniad) i gael y driniaeth. Dylech hefyd gael gwybod sut i gael rhagor o wybodaeth am y driniaeth. Darllenwch ragor am wneud penderfyniadau am eich gofal.

© NICE 2017 All rights reserved. Subject to Notice of rights

**Rhai cwestiynau i feddwl amdanynt**

- Beth yn union yw'r driniaeth hon?
- Beth yw'r manteision posibl? Pa mor debygol ydw i o'u cael?
- Beth yw'r risgiau neu'r sgîl-effeithiau? Pa mor debygol ydynt?
- Beth fydd yn digwydd os na fydd y driniaeth yn gweithio neu os aiff rhywbeth o'i le?
- Beth fydd yn digwydd os nad wyf eisiau'r driniaeth? A oes triniaethau eraill ar gael?

ISBN 978-1-4731-2678-7

© NICE 2017 All rights reserved. Subject to Notice of rights